

GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 1)

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), fel Awdurdod Prifffyrdd Tondy, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, a fydd yn diwygio'r cyfyngiadau canlynol yng NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 ("**Y Gorchymyn Cydgrynhoi**"), trwy ddirymu'r Cynllun Gorchymyn **AA47** dyddiedig 29.11.2024 a mewnosod y Cynllun Gorchymyn diwygiedig **AA47 Diwygiad 1** a mewnosod y Cynllun Gorchymyn newydd **Z47 Diwygiad 0**, a fydd yn cyflwyno cyfyngiad gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg fel y nodir yn yr atodlen isod.

Rhaid anfon gwrthwynebiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynigion, ynghyd â'r seiliau y cânt eu gwneud, yn ysgrifenedig at y person sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad a nodir neu drwy e-bost i traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn 11/04/2025.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys Gorchymyn a Chynlluniau arfaethedig y Cyngor a Datganiad o'i resymau dros wneud y Gorchymyn, ar gael trwy gysylltu naill ai â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1501) neu o'r Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa neu gellir ei archwilio ar-lein yn: <https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/>.

Os byddwch yn cael anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu ffoniwch y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643 cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1501. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus.

ATODLEN - GWAHARDD AROS, LLWYTHO, A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG

Heol Parc Tondy, Tondy, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar ochr y gogledd, o'r gyffordd ag ochr ddwyreiniol Clos y Cawell tua'r de-ddwyrain am tua 39 metr (43 llathen).
- (ii) Ar ochr y gogledd o'r gyffordd ag ochr orllewinol Clos y Cawell i gyfeiriad y gogledd-orllewin am tua 7 metr (8 llath)
- (iii) Ar ochr y gogledd, o'r gyffordd ag ochr ddwyreiniol y Ffordd Fynediad Ddienw i gyfeiriad y de-ddwyrain am tua 13 metr (14 llath).
- (iv) Ar ochr y gogledd, o'r gyffordd ag ochr orllewinol yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff i gyfeiriad y gogledd-orllewin am tua 63 metr (69 llath)
- (v) Ar ochr y gogledd o'r gyffordd ag ochr ddwyreiniol yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff i gyfeiriad y de-ddwyrain am tua 28 metr (31 llath)
- (vi) Ar ochr y de, o'r gyffordd ag ochr ddwyreiniol Rhodfa Parc Slip i gyfeiriad y de-ddwyrain am tua 81 metr (88 llath)
- (vii) Ar ochr y de, o'r gyffordd â Rhodfa Parc Slip i gyfeiriad y gogledd-orllewin am tua 80m (87 llath).

Clos y Cawell, Tondau, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar ochr y gorllewin, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).
- (ii) Ar ochr y dwyrain, i gyfeiriad y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).

Ffordd Fynediad Ddiennau, Tondau, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar ochr y gorllewin, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).
- (ii) Ar ochr y dwyrain, i gyfeiriad y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).

Rhodfa Parc Slip, Tondau, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar ochr y gorllewin, i gyfeiriad y de-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 32 metr (35 llath).
- (ii) Ar ochr y gorllewin, o bwynt tua 43 metr (47 llath) i'r de-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 3 metr (3 llath).
- (iii) Ar ochr y dwyrain, i gyfeiriad y de-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 46 metr (50 llath).

Heol y Glowyr, Tondau, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar ochr y gorllewin, i gyfeiriad y de-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).
- (ii) Ar ochr y dwyrain, i gyfeiriad y de-orllewin o'r gyffordd â Heol Parc Tondau am tua 8 metr (9 llath).

Dyddiad: 13/03/2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.